# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

## RHAN 1

GWELLA LLYWODRAETH LEOL

*Swyddogaethau eraill Archwilydd Cyffredinol Cymru*

### 27 Ffioedd

(1) Rhaid i **[**[F1]Swyddfa Archwilio Cymr**]** ragnodi graddfeydd ffioedd mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) archwiliadau a gynhelir o dan adran 17;

(b) asesiadau a gynhelir o dan adran 18;

(c) arolygiadau arbennig.

(2) Caniateir i raddfeydd gwahanol gael eu rhagnodi mewn cysylltiad â'r gweithgareddau gwahanol sydd wedi eu disgrifio yn is-adran (1), gwahanol fathau o'r un gweithgaredd a gwahanol fathau o awdurdod gwella Cymreig.

(3) Yn ddarostyngedig i is-adran (4), rhaid i awdurdod sy'n cael ei archwilio, ei asesu neu ei arolygu fel sydd wedi ei grybwyll yn is-adran (1), dalu i **[**[F2]Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â chynllun i godi ffioedd a baratowyd o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013,**]** y ffi sy'n daladwy o dan y raddfa briodol.

(4) Os yw'n ymddangos **[**[F3]i Swyddfa Archwilio Cymru**]** fod y gwaith a oedd ynghlwm wrth archwiliad, asesiad neu arolygiad penodol yn sylweddol fwy neu'n sylweddol llai na'r hyn a ragwelwyd yn ôl y raddfa briodol, caiff **[**[F3]Swyddfa Archwilio Cymru**]** godi ffi sy'n fwy neu'n llai na'r hyn y cyfeiriwyd ato yn is-adran (3).

**[**[F4](4A) Ond ni chaiff ffi a godir o dan yr adran hon fod yn fwy na chost lawn arfer y swyddogaeth y mae'r ffi'n ymwneud â hi.**]**

(5) Cyn rhagnodi graddfa ffioedd o dan yr adran hon, rhaid **[**[F5]i Swyddfa Archwilio Cymru**]** ymgynghori â'r canlynol—

(a) Gweinidogion Cymru, a

(b) personau y mae'n ymddangos [F5 i Swyddfa Archwilio Cymru] eu bod yn cynrychioli awdurdodau y caniateir eu harchwilio, eu hasesu neu eu harolygu fel sydd wedi ei grybwyll yn is-adran (1).

F6(6) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 27(1) wedi eu hamnewid (1.4.2014) gan Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (anaw 3), a. 35(2), **Atod. 4 para. 87(2)** (ynghyd ag Atod. 3 para. 3); O.S. 2013/1466, ergl. 3(1)

**F2** Geiriau yn a. 27(3) wedi eu hamnewid (1.4.2014) gan Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (anaw 3), a. 35(2), **Atod. 4 para. 87(3)** (ynghyd ag Atod. 3 para. 3); O.S. 2013/1466, ergl. 3(1)

**F3** Geiriau yn a. 27(4) wedi eu hamnewid (1.4.2014) gan Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (anaw 3), a. 35(2), **Atod. 4 para. 87(4)** (ynghyd ag Atod. 3 para. 3); O.S. 2013/1466, ergl. 3(1)

**F4** A. 27(4A) wedi ei fewnosod (1.4.2014) gan Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (anaw 3), a. 35(2), **Atod. 4 para. 87(5)** (ynghyd ag Atod. 3 para. 3); O.S. 2013/1466, ergl. 3(1)

**F5** Geiriau yn a. 27(5) wedi eu hamnewid (1.4.2014) gan Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (anaw 3), a. 35(2), **Atod. 4 para. 87(6)** (ynghyd ag Atod. 3 para. 3); O.S. 2013/1466, ergl. 3(1)

**F6** A. 27(6) wedi ei hepgor (1.4.2014) yn rhinwedd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (anaw 3), a. 35(2), **Atod. 4 para. 87(7)** (ynghyd ag Atod. 3 para. 3); O.S. 2013/1466, ergl. 3(1)

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** A. 27 cymhwyswyd (gydag addasiadau) (1.4.2010) gan 2004 c. 21, a. 24(4)(5) (mewnosodwyd gan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (nawm 2), a. 53(2), **Atod. 1 para. 33**; O.S. 2009/3272, ergl. 3(1), Atod. 2)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 27 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(2)**

**I2** A. 27 mewn grym ar 1.4.2010 gan O.S. 2009/3272, ergl. 3(1), **Atod. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 27 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 29 Gorffennaf 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Measure associated Parts and Chapters:**

– Measure repealed by 2021 asc 1 s. 170(1)

Whole provisions yet to be inserted into this Measure (including any effects on those provisions):

– Sch. para. 10 omitted by 2018 anaw 2 Sch. 1 para. 16